Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030

# Strategaeth a Ffafrir Dogfen Ymgynghori Hunanasesiad Profion Cadernid

Tachwedd 2017

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

**Cyflwyniad**

Mae'n egwyddor sylfaenol bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn bodloni'r profion cadernid fel y nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau.  Mae rhan o'r broses hon yn gofyn i'r awdurdod cynllunio lleol ymgymryd â hunanasesiad o gadernid ei CDLl ac felly mae hunanasesiad o Strategaeth Ddewisol y CDLl wedi'i gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r 3 prawf cadernid fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC), sef:

1. **A yw'r cynllun yn addas?** (h.y. A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?)
2. **A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
3. **A fydd y cynllun yn cyflawni'r nod?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Mae'r tabl isod yn nodi asesiad y Cyngor o'r tri phrawf cadernid hyd yma.

| 1. **A yw'r cynllun yn addas?** (h.y. A yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?) | |
|---|---|
| a) A yw'n rhoi sylw i bolisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru? | Ydi.  Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi rhoi sylw i bolisïau a chanllawiau cenedlaethol. Roedd y Strategaeth Ddewisol a'r dogfennau ategol yn nodi'r polisïau a'r cynlluniau cenedlaethol sydd wedi'u hystyried wrth baratoi'r Cynllun. Caiff pob un o'r polisïau strategol eu cefnogi gan adran 'cynnwys polisi' sy'n nodi adrannau perthnasol y PCC.<br><br>Mae hefyd wedi rhoi sylw i Gynllun Gofodol Cymru Diweddar 2008 sy'n nodi bod Sir y Fflint yn gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru, yn ogystal â'i phwysigrwydd yng nghyd-destun rhanbarthol mewn perthynas â Chaer a Gogledd-Orllewin Lloegr.<br><br>Mae lleoliad a phwysigrwydd economaidd rhanbarthol Sir y Fflint yn ategu'r Strategaeth Ddewisol o ran twf economaidd, creu swyddi a chartrefi newydd, ac mae'n adlewyrchu uchelgeisiau Cynllun Gofodol Cymru. |
| b) A yw'n rhoi sylw i Nodau Lles - fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | Ydi.  Mae'r Strategaeth Ddewisol yn cynnwys amcanion sy'n cysylltu â'r nodau lles, ac mae pob polisi strategol yn nodi pa |

| | |
|---|---|
| | un o’r nodau lles y mae’n ei fodloni. Bydd y lefel ddewisol o dwf a lleoliad datblygiad newydd a nodir yn y CDLl yn darparu tair elfen Datblygu Cynaliadwy – Cymuned, Economi (a rennir ymhellach yn dwf cyflogaeth a chynnydd tai) a’r Amgylchedd.<br><br>Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd ar wahân wedi’i gynnal. Ail-edrychwyd ar yr Adroddiad Cwmpasu er mwyn rhoi sylw i’r nodau Lles cenedlaethol. Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd (a’r Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn dangos bod y CDLl yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu cynaliadwy. |
| c) A yw’n rhoi sylw i Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru? | Mae’r Strategaeth Ddewisol, drwy bolisïau strategol 13 ac 14, yn cydnabod nifer o faterion a fydd yn cyflawni’r Cynllun Morol. Mae’r rhain yn cynnwys diogelu cefn gwlad agored a’r morlin annatblygedig, diogelu a gwella’r seilwaith gwyrdd a rhwydweithiau, cydnabod ansawdd amgylcheddol Aber Afon Dyfrdwy a chyfeirio datblygiad oddi wrth ardaloedd sydd â pherygl llifogydd. Bydd y polisïau strategol, wedi’u cyfuno â pholisïau manwl dilynol, yn sicrhau bod y CDLl yn cyflawni’r Cynllun Morol. |
| d) A yw’n gyson â chynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni gwasanaethu? | Ydi. Datblygwyd cynnwys y Strategaeth Ddewisol gan ystyried y cynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni gwasanaethu perthnasol. Ystyriwyd y rhain hefyd wrth lunio polisïau strategol y CDLl, yr uchelgais twf, amcanion strategol, strategaeth ofodol a hierarchaeth yr anheddiad.<br><br>Mae’r strategaeth ddewisol a’r papurau testun cysylltiedig yn nodi'r cynlluniau rhanbarthol, strategaethau a rhaglenni gwasanaethu sydd wedi’u hystyried.<br><br>Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd a Rheoliadau Cynefin cychwynnol yn dangos bod y strategaeth ddewisol yn unol ag amcanion diogelu'r amgylchedd rhanbarthol a lleol. |

| | |
|---|---|
| | Mae cwmnïau gwasanaethau, sydd ar y Fforwm Budd-ddeiliaid Allweddol, wedi bod yn rhan o ddatblygiad y strategaeth ddewisol o gam cynnar, ac mae'r cynllun yn gyson â'u rhaglenni. |
| e) A yw'n cydweddu â chynlluniau awdurdodau cyfagos? | Ydi. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn ystyried strategaethau ac astudiaethau rhanbarthol, gan gynnwys rhan drawsffiniol, a'r gwaith a wneir ar y rhain gydag awdurdodau cyfagos, e.e.<br>Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu ag awdurdodau cyfagos Wrecsam a Chaer a Gorllewin Swydd Gaer drwy broses y Cynllun.<br><br>O ran mwynau a gwastraff, mae Sir y Fflint yn gweithredu fel awdurdod arweiniol ar gyfer y dull cydweithredol ar draws Gogledd Cymru, o dan yr enw 'Gwasanaeth Mwynau a Chynllunio Gwastraff Gogledd Cymru'. |
| f) A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC)? | Ydi. Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi rhoi sylw i'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Sir y Fflint lle mae goblygiadau defnydd tir, datblygu a chynaliadwyedd. Mae'r Strategaeth Ddewisol hefyd wedi rhoi sylw i Gynllun Lles Sir Ddinbych. |

| 2. **A yw'r cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)<br>3. | |
|---|---|
| g) A yw'n benodol yn lleol? | Ydi. Mae tystiolaeth wedi'i chasglu yn benodol ar gyfer Sir y Fflint ar ystod o bynciau er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu'r ardal leol a cheisio diwallu anghenion ac uchelgeisiau lleol. |
| h) A yw'n mynd i'r afael â'r materion allweddol? | Ydi. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn nodi'n glir y materion allweddol sy'n gysylltiedig â Sir y Fflint. Mae wedi'i dywys gan ddealltwriaeth o gyd-destun yr ardal leol a'i hanghenion, cyfleoedd a chyfyngiadau.<br>Mae hefyd wedi'i dywys gan weledigaeth ac amcanion y CDLl, yn ogystal ag egwyddorion cynaliadwyedd a lles. Mae'r Papurau Testun cysylltiedig a'r dystiolaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | yn rhoi gwybodaeth bellach ar y materion allweddol. |
| i) | A gaiff ei gefnogi gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy? | Caiff. Mae nifer o astudiaethau wedi cael eu cynnal fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y CDLl. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiad Marchnad Dai Lleol Sir y Fflint a Wrecsam, Adolygiad Tir Cyflogaeth Sir y Fflint a Wrecsam, Asesiad Sefyllfa Twf Cyflogaeth Bellach Sir y Fflint , Cynllun Glannau Dyfrdwy, yr arolwg tir tai blynyddol a'r Papurau Testun. Mae astudiaethau ychwanegol yn cael eu cynnal a'u comisiynu ar hyn o bryd. Ailymwelir ag Astudiaeth Hyfywedd cychwynnol ar y cyd â Wrecsam wrth baratoi'r Cynllun Adneuo Drafft. Efallai y gwneir mwy o waith ymchwil yn ystod proses y CDLl fel y bo angen. |
| j) | A ellir dangos y sail resymegol y tu ôl i bolisïau'r cynllun? | Gellir. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi llywio'r polisïau strategol, sydd angen eu darllen gyda'i gilydd er mwyn deall cyfeiriad polisi cyffredinol y Cynllun. Mae gan bob polisi strategol gyfiawnhad rhesymedig a thabl cryno, sy'n ymwneud ag amcanion perthnasol y CDLl, y polisi cenedlaethol a'r Nodau Lles, yn ogystal â'r dystiolaeth allweddol. |
| k) | A yw'n ceisio diwallu anghenion asesedig ac yn cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy? | Ydi. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ac asesiad o angen a nodir oddi mewn i hyn. Eir i'r afael â'r anghenion hyn a'r uchelgeisiau ar gyfer yr ardal yn y Strategaeth Ddewisol, sy'n ceisio diwallu'r anghenion hyn yn glir.<br><br>Mae'r polisïau strategol wedi'u grwpio yn unol â thair elfen Datblygu Cynaliadwy ac mae'r Strategaeth Ddewisol wedi bod yn ddarostyngedig i Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn sicrhau ei bod yn cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy. |
| l) | A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol? | Ydyn. Mae'r Cynllun yn ceisio ymateb i anghenion poblogaeth gynyddol ac economi sy'n rhanbarthol bwysig, gan greu mannau cynaliadwy o ansawdd uchel mewn ardaloedd trefol a gwledig ar yr un pryd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Strategaeth Ddewisol yn dilyn dull cadarnhaol ond realistig tuag at gyflawni twf. |
| m) A yw'r 'gwir' opsiynau amgen wedi cael eu hystyried yn iawn? | Ydyn. Ystyriwyd nifer o wahanol opsiynau twf a gofodol amgen fel rhan o'r ddogfen Opsiynau Strategol. Nodir asesiad yr opsiynau hyn ym Mhennod 3 y Strategaeth Ddewisol ac yn fanylach mewn papur cefndir. Ystyriwyd yr Opsiynau Strategol drwy broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd.<br>Felly, ar ôl ystyried nifer o opsiynau amgen, ystyrir bod y Strategaeth Ddewisol yn realistig a phriodol. |
| n) A yw'n rhesymegol, rhesymol a chytbwys? | Ystyrir bod y Strategaeth Ddewisol yn rhesymegol, realistig a chytbwys ar ôl ystyried yr opsiynau amgen. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth resymegol a chredadwy lle deilliwyd y polisïau'n rhesymegol. |
| o) A yw'n gydlynol a chyson? | Mae'r Strategaeth Ddewisol yn nodi Strategaeth gydlynol ymhle mae ei pholisïau strategol yn llifo. Arweinir y strategaeth gan, ac mae'n gyson gyda, gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, yr egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn y canllawiau cynllunio cenedlaethol, y twf a'r opsiynau gofodol a'r dystiolaeth. |
| p) A yw'n glir ac wedi'i ffocysu? | Ydi. Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi'i nodi mewn ffordd sy'n dangos y cysylltiadau'n glir rhwng amrywiol elfennau'r Cynllun. Mae'n canolbwyntio ar y prif faterion strategol a nodir ac yn dangos sut bydd y polisïau manwl yn gysylltiedig â'r rhain. |

| | |
|---|---|
| 4. **A fydd y cynllun yn cyflawni'r nod?** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)<br>5. | |
| q) A fydd yn effeithiol? | Bydd. Mae'r Strategaeth Ddewisol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a rhesymegol ac yn ceisio diwallu anghenion yr ardal mewn ffordd realistig. Bydd felly yn effeithiol wrth gyflawni ei amcanion. |

| | |
|---|---|
| r) A ellir ei roi ar waith? | Gellir. Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi ei hysgrifennu mewn ffordd y gellir ei rhoi ar waith yn rhwydd. |
| s) A oes cefnogaeth gan y darparwyr seilwaith perthnasol, yn ariannol ac o ran bodloni amserlenni perthnasol? | Oes. Mae'r prif ddarparwyr seilwaith wedi bod yn rhan o ddatblygiad y Strategaeth Ddewisol o gam cynnar, a bydd yn parhau i fod yn rhan ohoni wrth i broses y Cynllun ddatblygu. |
| t) A fydd y datblygiad yn hyfyw? | Bydd. Mae gwaith cychwynnol ar hyfywedd wedi'i gynnal ar y cyd â Wrecsam. At hynny, bydd gwaith manylach yn parhau wrth i'r cynllun ddatblygu er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu'r Cynllun yn hyfyw. |
| u) A ellir darparu'r safleoedd a ddyrennir? | Ar y cam hwn, ac eithrio dau safle strategol, nid oes unrhyw ddyraniadau safle penodol. Mae gan y safleoedd strategol allweddol ganiatâd cynllunio amlinellol. Bydd ail-ddyrannu tir ym Mhorth y Gogledd yn ail edrych ar ddarpariaeth y safle. Bydd ystod ehangach o ddefnydd tir yn Warran Hall yn helpu i sicrhau darpariaeth. |
| v) A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes digon o ddarpariaethau arian at raid? | Mae'r Strategaeth Ddewisol wedi ei dylunio i ddarparu fframwaith polisi hyblyg sy'n gallu delio â newidiadau annisgwyl mewn sefyllfaoedd. Mae'r gofynion anheddau yn cynnwys lwfans hyblygrwydd, tra bod hierarchaeth yr anheddiad a'r dull gofodol wedi'u dylunio i ddarparu dull hyblyg a chynaliadwy wrth ddatblygu. |
| w) A gaiff ei fonitro'n effeithiol? | Caiff y cynllun ei fonitro'n effeithiol. Yr Adroddiad Monitro Blynyddol fydd y brif ffordd o fesur ac asesu'r polisïau ar waith. Bydd gwybodaeth bellach ar waith monitro'r CDLl yn cael ei chynnwys yng Nghynllun y Ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd. Ni chaiff y Strategaeth Ddewisol ei hun ei monitro yn y ffordd hon am nad yw'n cynnwys polisïau manwl. |

